CBAC WJEC

# TAG UG/Uwch

983/51

# MATHEMATEG S1
## Ystadegaeth

P.M. DYDD MERCHER, 26 Ionawr 2011

$1\frac{1}{2}$ awr

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen:

- llyfr ateb 12 tudalen;
- Llyfryn Fformiwlâu;
- cyfrifiannell;
- tablau ystadegau (Murdoch a Barnes neu Gyhoeddiadau RND/CBAC).

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Rhaid dangos gwaith cyfrifo digonol er mwyn egluro'r dull **mathemategol** sy'n cael ei ddefnyddio.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Cofiwch fod angen Cymraeg da a chyflwyniad trefnus yn eich atebion.

**1.** Mae gan Siân ddau ddis teg, y naill a'r llall ar ffurf tetrahedron rheolaidd. Ar bedwar wyneb y naill ddis a'r llall mae'r rhifau 1, 2, 3, 4, yn ôl eu trefn. Mae'n taflu'r ddau ddis gyda'i gilydd a'r sgôr ar y naill ddis a'r llall yw'r rhif ar y wyneb sy'n cyffwrdd â'r bwrdd.

*(a)* Ysgrifennwch y gofod sampl *(sample space)*. [2]

*(b)* Cyfrifwch y tebygolrwydd

(i) mai 6 yw cyfanswm y sgorau ar y ddau ddis,

(ii) bod y sgorau ar y ddau ddis yn gyfanrifau olynol *(consecutive)*. [4]

**2.** Mae'r digwyddiadau $A$ a $B$ fel bod

$$P(A) = P(B) = p,\ \ P(A \cup B) = 0{\cdot}64.$$

*(a)* O wybod bod $A$ a $B$ yn gydanghynhwysol, darganfyddwch werth $p$. [2]

*(b)* O wybod, yn hytrach, bod $A$ a $B$ yn annibynnol, dangoswch fod

$$25p^2 - 50p + k = 0,$$

lle mae $k$ yn gysonyn y mae'n rhaid darganfod ei werth.
Trwy hyn, darganfyddwch werth $p$. [5]

**3.** Mae gan Dafydd gasgliad bach o 12 CD ac mae'n eu dosbarthu i dri math, sef clasurol, pop a jazz. Mae ganddo 6 CD clasurol, 4 CD pop a 2 CD jazz. Un noson, mae'n hapddewis ac yn chwarae 3 CD o'i gasgliad. Darganfyddwch y tebygolrwydd bod ei ddewis

*(a)* yn cynnwys un o bob math, [3]

*(b)* i gyd yn glasurol, [2]

*(c)* i gyd o'r un math. [3]

**4.** Mae gan yr hapnewidyn $X$ y dosraniad binomial B($n$, 0·2). O wybod bod cymedr $X$ ddwywaith ei wyriad safonol, darganfyddwch werth $n$. [5]

**5.** Ar ddydd gwaith, bydd ceir yn parcio drwy'r dydd mewn maes parcio bach. Gallwch dybio bod gan nifer y ceir, $X$, sy'n defnyddio'r maes parcio ar ddydd gwaith, ddosraniad Poisson â chymedr 15.

*(a)* Darganfyddwch

(i) $P(X = 8)$,

(ii) $P(10 \leqslant X \leqslant 20)$. [5]

*(b)* Y gost am barcio drwy'r dydd yw £8 ac mae'r gofalwr, sy'n casglu'r arian, yn cael ei dalu £50 y dydd. Mae'r elw dyddiol o'r maes parcio wedi'i ddynodi gan £$Y$.

(i) Darganfyddwch fynegiad ar gyfer $Y$ yn nhermau $X$.

(ii) Darganfyddwch gymedr ac amrywiant $Y$. [5]

**6.** Mewn gwlad arbennig, mae 80% o'r diffynyddion sy'n sefyll eu prawf mewn Llys Barn mewn gwirionedd wedi cyflawni'r drosedd. Y tebygolrwydd y caiff diffynnydd sydd wedi cyflawni'r drosedd ei ddyfarnu'n euog yw 0·9. Y tebygolrwydd y caiff diffynnydd sydd heb gyflawni'r drosedd ei ddyfarnu'n euog yw 0·05.

*(a)* Darganfyddwch y tebygolrwydd y caiff diffynnydd sydd wedi'i hapddewis ei ddyfarnu'n euog. [3]

*(b)* O wybod bod diffynnydd sydd wedi'i hapddewis wedi'i ddyfarnu'n euog, darganfyddwch y tebygolrwydd bod y diffynnydd hwn wedi cyflawni'r drosedd. [3]

**7.** Mae'r tabl canlynol yn rhoi dosraniad tebygolrwydd yr hapnewidyn arwahanol $X$.

| $x$ | 1 | 2 | 3 |
|---|---|---|---|
| $P(X = x)$ | $0{\cdot}4 - \alpha$ | $2\alpha$ | $0{\cdot}6 - \alpha$ |

*(a)* (i) Nodwch amrediad y gwerthoedd posibl ar gyfer y cysonyn $\alpha$.

(ii) Dangoswch fod $E(X)$ yn annibynnol ar $\alpha$.

(iii) O wybod bod $\text{Var}(X) = 0{\cdot}66$, darganfyddwch werth $\alpha$. [7]

*(b)* Tybiwch yn awr fod $\alpha = 0{\cdot}25$. O wybod bod $X_1$, $X_2$ yn ddau werth annibynnol o $X$, darganfyddwch werth $P(X_1 = X_2)$. [4]

**8.** Mae gwydrau gwin yn cael eu pacio mewn bocsys, pob un yn dal 20 gwydr. Y tebygolrwydd y caiff gwydr ei dorri wrth gael ei gludo *(in transit)* yw 0·05, yn annibynnol ar bob gwydr arall.

*(a)* Boed i $X$ ddynodi nifer y gwydrau mewn bocs sy'n cael eu torri wrth gael eu cludo.

(i) Nodwch ddosraniad $X$.

(ii) **Heb ddefnyddio tablau**, cyfrifwch $P(X = 1)$.

(iii) **Gan ddefnyddio tablau,** darganfyddwch werth $P(X \geqslant 3)$. [5]

*(b)* Mae siopwr yn prynu 10 o'r bocsys hyn. Defnyddiwch frasamcan Poisson i ddarganfod y tebygolrwydd bod llai na 5 o'r 200 gwydr yn cael eu torri wrth gael eu cludo. [3]

**9.** Mae gan yr hapnewidyn di-dor $X$ y ffwythiant dwysedd tebygolrwydd $f$ sydd wedi'i roi gan

$$f(x) = \frac{1}{6}(x + 1) \quad \text{ar gyfer } 1 \leqslant x \leqslant 3,$$

$$f(x) = 0 \quad \text{fel arall.}$$

*(a)* Cyfrifwch $E(X)$. [4]

*(b)* (i) Darganfyddwch fynegiad ar gyfer $F(x)$, sy'n ddilys ar gyfer $1 \leqslant x \leqslant 3$, lle mae $F$ yn dynodi ffwythiant dosraniad cronnus $X$.

(ii) Nodwch werth $F(4)$.

(iii) Enrhifwch $P(1{\cdot}5 \leqslant X \leqslant 2)$.

(iv) Darganfyddwch ganolrif $X$. [10]